**Atodiad A**

# Atodlen Penderfyniadau

**Y PWYLLGOR CYNLLUNIO**

| Rhif | Safle/Cynnig | Ward | Sylwadau Ychwanegol | Penderfyniad |
|---|---|---|---|---|
| **22/1047** | **Safle: 59 Balmoral Road**<br><br>**Y Cynnig:** NEWID DEFNYDD O DŶ ANNEDD Â 4 YSTAFELL WELY (C3) I GARTREF GOFAL PLANT Â 3 YSTAFELL WELY (C2)<br><br>**Argymhelliad**: Cymeradwywyd gydag amodau | **Alway** | Cyflwynwyd i'r Pwyllgor ar gais y Cynghorydd Debbie Harvey.<br><br>Datganodd y Cynghorydd Tim Harvey fuddiant yn y cais hwn a gadawodd y cyfarfod.<br><br>Siaradodd Ms Jane Sibanda (Ymgeisydd) o blaid y cais.<br><br>Siaradodd y Cynghorydd Deb Harvey (Aelod Ward) yn erbyn y cais. | Cymeradwywyd gydag amodau |
| **22/0067** | **Safle: Tir i'r gorllewin o Tom Lewis Way, Dociau Alexandra, Casnewydd**<br><br>**Y Cynnig:** Adeiladu unedau siopau ychwanegol ac ardal golchi blaen agored ynghyd â swyddfeydd Portakabin a datblygu cysylltiedig arall.<br><br>**Argymhelliad**: Cymeradwywyd gydag | **Pilgwenlli** | Cyflwynwyd i'r Pwyllgor gan ei fod yn gais cynllunio mawr | Rhoddwyd pwerau dirprwyedig i'r Pennaeth Gwasanaeth gymeradwyo'r cais os bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cadarnhau eu bod yn fodlon ar ganlyniadau'r asesiad priodol ac yn amodol ar ddiwygio Amod 3 (Tirlunio). |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | amodau | | | |
| **22/0955** | **Safle: 1 Collier Street**<br><br>**Y Cynnig:** NEWID DEFNYDD O ANNEDD Â THAIR YSTAFELL WELY (DEFNYDD C3) I DŶ AMLFEDDIANNAETH Â 6 YSTAFELL WELY (DEFNYDD C4)<br><br>**Argymhelliad:** Cymeradwywyd gydag amodau | **Sain Silian** | Cyflwynwyd i'r Pwyllgor ar gais y Cynghorwyr Bright a Townsend<br><br>Siaradodd y Cynghorydd Phil Hourahine (Aelod Ward) yn erbyn y cais. | **Gwrthodwyd:**<br><br>Rheswm:<br><br>Bydd y cynnig yn cael effaith andwyol sylweddol ar fuddiannau o bwysigrwydd cydnabyddedig, sef diogelwch ac amwynder preswyl oherwydd llifogydd a phresenoldeb ystafell wely llawr gwaelod gyda lloches llawr cyntaf anaddas Nid oes unrhyw wybodaeth wedi’i chyflwyno sy'n lliniaru'r gwrthwynebiad hwn, yn groes i bolisi SP3 Cynllun Datblygu Lleol Casnewydd ar gyfer 2011-2026 (Mabwysiadwyd Ionawr 2015) a Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu a Pherygl Llifogydd (NCT 15) (Gorffennaf 2004). |